Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Pwll Coch
# Rhodfa Lawrenny
# Lecwydd
# Caerdydd
# CF11 8BR

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Pwll Coch

Lleolir Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn ardal Lecwydd yng Nghaerdydd. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion o ardal eang ac amrywiol sy'n cynnwys Grangetown, Glan yr Afon a rhannau o Dreganna, Trebiwt, Pontcanna a Pharc Fictoria. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 467 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 49 oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 18 dosbarth un oed.

Tua 10% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae tua 40% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac mae tua 20% o gefndir lleiafrifol ethnig. Nid oes disgybl yn derbyn cefnogaeth am Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol wedi adnabod 20% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2016 a'r dirprwy ym Ebrill 2015. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.  Mae'r ysgol yn rhoi bri amlwg ar gefndiroedd a diwylliannau amrywiol disgyblion.  Mae ansawdd yr addysgu gan amlaf yn dda ac yn meithrin awyrgylch dysgu cefnogol a gweithgar.  Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac maent yn awyddus i ddysgu.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog, sy'n darparu ar gyfer anghenion disgyblion yn effeithiol.  O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn, yn cyflawni'n dda ac yn defnyddio eu medrau i safon uchel erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol.  Mae arweinwyr yn hynod effeithiol wrth osod a hybu gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd gwaith ac anelu at ragoriaeth.  Caiff arweinwyr gefnogaeth gref gan staff, sydd oll yn credu yng ngweledigaeth yr ysgol ac yn gweithio tuag at ei chyflawni.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion

A2 Darparu cyfleoedd cyson i herio'r disgyblion mwy abl yn effeithiol

A3 Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac i weithio'n fwy annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, heblaw yn y Gymraeg lle mae'r iaith yn newydd i'r mwyafrif ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ddisgyblion eraill. Mae medrau llafar disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gyflym, er enghraifft wrth i ddisgyblion y dosbarth derbyn drafod stori am bengwiniaid. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft wrth drafod eu taith i gastell Caerdydd. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn ddeallus gydag aeddfedrwydd, gan ddefnyddio geirfa ymestynnol yn Saesneg, er enghraifft wrth drafod sut y gall llun gyfleu teimladau cymeriad adnabyddus. Fodd bynnag, er bod llawer yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg, nid yw medrau llafar ychydig o'r disgyblion wedi datblygu cystal ag yn Saesneg. Mae diffyg geirfa a chystrawen chwithig yn amharu ar hyder ychydig o'r disgyblion i gyfathrebu'n hyderus wrth drafod eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da bob blwyddyn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau'n gywir ac, erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn gywir ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion mwy galluog yn darllen gyda mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau a chymeriadau'n hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio eu medrau yn fedrus i gywain gwybodaeth o wahanol destunau, gan gynnwys y we, er enghraifft wrth ddysgu am gorwyntoedd. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn llithr ddarllen am wybodaeth yn fedrus, er enghraifft wrth ddysgu am awduron cyfoes.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Mae llawer yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn erbyn diwedd y cyfnod. Maent yn ysgrifennu'n annibynnol, yn deall gwahanol arddulliau ysgrifennu'n dda ac yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu stori ddychmygol ar ffurf chwedl Cantre'r Gwaelod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan baragraffu ac atalnodi'n gywir. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw cyflwyniad y gwaith a llawysgrifen y disgyblion yn ddestlus. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr i ddiolch am eu taith i'r amgueddfa i ddysgu am fywyd yn oes y Tuduriaid neu wrth ysgrifennu dadl o blaid neu yn erbyn cadw anifeiliaid mewn sŵ.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a

data. Mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth i lunio graff bar syml i ddangos lle mae disgyblion y dosbarth yn byw. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen. Maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyflwyno canlyniadau ymchwiliad i ba mor bell mae awyren bapur yn hedfan. Maent yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol ar wahanol ffurf, er enghraifft, wrth gymharu nifer y siaradyr Cymraeg ym Mro Morgannwg dros gyfnod.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n llwyddiannus i gyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at Barti Ddu neu wrth greu poster diogelwch ar y ffordd. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata syml i gofnodi hoff fwyd aelodau'r dosbarth. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno'u gwaith, er enghraifft ar wahanol atyniadau yng Nghaerdydd. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus i chwilio am wybodaeth ac yn defnyddio cronfa ddata yn ddeallus, er enghraifft wrth gymharu pris cinio ysgol â byrbrydau mewn archfarchnadoedd lleol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron bob disgybl yn mwynhau'r ysgol, yn teimlo'n ddiogel yno ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder yn eu hysgol, eu cymuned a'u hiaith. Mae bron bob un yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol. Mae'r rhyngweithiad cadarnhaol a'r lefelau cryf o gydweithio ymhlith disgyblion o bob oedran, wrth weithio a chwarae, yn nodwedd gref yn yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd aeddfed mae disgyblion hŷn, sy'n aelodau o'r Criw Clên, yn gofalu am eraill yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae bron bob disgybl yn symud yn dawel a phwyllog o gwmpas yr ysgol. Mae safonau ymddygiad yn gyson uchel.

Mae agweddau rhan fwyaf y disgyblion tuag at eu dysgu yn gadarn. Maent yn dangos cymhelliant yn eu gwaith ac yn ymroi i'w tasgau yn ddiwyd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r disgyblion yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol wrth drafod, gwerthuso a chynnig sylwadau adeiladol. O ganlyniad, mae llawer yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw disgyblion yn gweithio'n ddigon annibynnol nac yn gwneud penderfyniadau am sut a beth maent yn ei ddysgu yn ddigon rheolaidd.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau, fel arweinwyr digidol, ac aelodau o'r cyngor ysgol a'r cyngor eco, yn fodlon. Mae'r aelodau yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol ac yn rhoi adborth i'r disgyblion eraill am eu trafodaethau a'u penderfyniadau yn rheolaidd. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, fel monitro'r defnydd o drydan a dŵr, ac ailgylchu a chasglu sbwriel.

Maent yn cyfrannu'n helaeth wrth godi arian ar gyfer elusennau a chyfranogi tuag at y banciau bwyd lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned. Mae'r profiadau hyn yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion da.

Mae bron bob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer yn gwella'u ffitrwydd trwy gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r bwlch rhwng presenoldeb y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyd-ddisgyblion wedi lleihau'n gyson dros gyfnod o bedair blynedd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda ac yn deillio o berthynas waith lwyddiannus rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r cynorthwywyr. Mae hyn yn arwain at awyrgylch dysgu cefnogol a gweithgar.

Mae bron bob aelod o staff yn fodelau iaith cadarn ac yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, mae gan lawer o'r disgyblion hŷn fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft trwy ymweliadau â Chastell Caerdydd, Amgueddfa Sain Ffagan a hefyd drwy astudio sut mae Caerdydd wedi datblygu dros gyfnod. Mae hyn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin a chefndir amlddiwylliannol yr ardal yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio profiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog, sy'n sicrhau bod y cwricwlwm gan amlaf yn darparu ar gyfer anghenion disgyblion o alluoedd gwahanol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ystyried egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda, gan sicrhau cyfleodd priodol i bob disgybl ymgymryd â dysgu gweithredol. Mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau'r ysgol, gan gynnwys yr ardaloedd tu allan, er mwyn datblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae'r cynllunio yn systematig ac yn helpu athrawon i gynllunio tasgau diddorol sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio'r profiadau dysgu yn ofalus i ymestyn medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso'r medrau hyn yn hyderus, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 5 gynllunio diwrnod allan i deulu'r athrawes. Yn gyffredinol, mae cydbwysedd da rhwng profiadau sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau, mewn rhai dosbarthiadau, mae oedolion yn tueddu i gorgyfarwyddo gweithgareddau ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu sy'n sicrhau bod y disgyblion yn ymroi'n llawn i'w gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm, ac maent yn darparu tasgau a heriau sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Maent yn cysylltu eu gwersi'n

effeithiol â dysgu blaenorol, yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn sicrhau rhediad da i'r sesiynau.  Yn yr ychydig  ddosbarthiadau lle mae'r addysgu ar ei orau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn, ac maent yn defnyddio cwestiynau penagored yn llwyddiannus iawn er mwyn annog disgyblion i feddwl yn annibynnol. Yn yr ychydig iawn o enghreifftiau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r athrawon bob tro'n herio'r disgyblion yn ddigon effeithiol.  O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn datblygu hyd eithaf eu gallu.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig cadarn i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach.  Mae staff yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a meini prawf llwyddiant.  O ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn gwybod sut i wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.  Mae'r amgylchedd dysgu yn annog disgyblion i ymfalchïo yn eu gwaith ac i gyfrannu'n effeithiol at fywyd yr ysgol.  Mae'r ysgol yn rhoi bri amlwg ar gefndiroedd a diwylliannau amrywiol disgyblion.  O ganlyniad, mae pawb yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae diwylliannau amrywiol yn cyfoethogi eu bywydau.  Drwy wahodd ymwelwyr o'r gymuned leol, gwneud gwaith celf a dathlu gwyliau aml-ddiwylliant, mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion, sydd yn ymestyn eu dealltwriaeth o Gaerdydd a'r byd ehangach yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn croesawu arweinwyr crefyddol lleol ac yn cynnal gwasanaethau i ddisgyblion a'u teuluoedd, er enghraifft i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.  O ganlyniad, mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn rhan naturiol o waith yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn effeithiol. Gwneir defnydd helaeth o ymwelwyr i ehangu profiadau diwylliannol y disgyblion, er enghraifft artistiaid, cyfansoddwyr a beirdd.  Mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio a chymryd rhan mewn cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau.  Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer o'r disgyblion, yn ogystal â'u hymwybyddiaeth o etifeddiaeth Gymreig.  Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymuno â grwpiau arweinyddol sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol.  Er enghraifft, mae'r swyddogion iaith, y 'Dreigiau Doeth', yn frwdfrydig wrth hybu defnydd o'r iaith Gymraeg ym mywyd dyddiol yr ysgol fel rhan o waith y Siarter Iaith.  O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos balchder at yr iaith ac yn ei defnyddio i gymdeithasu amser chwarae ac yn eu gwersi.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni.  Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ansawdd y cyfathrebu drwy ddefnyddio safle cyfryngau cymdeithasol er mwyn cynnig gwybodaeth gyson i'r rhieni am yr hyn y mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol.  Mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau gwybodaeth defnyddiol ar y dulliau dysgu a ddefnyddir, er enghraifft noswaith i hybu dealltwriaeth rhieni o'r dulliau adferol mae'r ysgol yn eu gweithredu i hybu medrau bywyd a chydweithio eu plant.  Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r datblygiad ac, o ganlyniad, maent yn fwy ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud adre i gefnogi'r dysgu.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae gweithdrefnau yn drwyadl, ac yn galluogi'r staff i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar, a darparu cefnogaeth bwrpasol ar eu cyfer. Mae cynlluniau addysg unigol yn fanwl, yn cynnwys targedau clir ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol gan athrawon a chynorthwywyr, sy'n sicrhau bod bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant a chânt eu cynnwys yn llawn wrth greu a gwerthuso'r cynlluniau.

Mae gan yr ysgol strategaethau pwrpasol i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â nifer o wasanaethau ac asiantaethau allanol, er enghraifft gyda chanolfan lles yr awdurdod lleol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cyrrhaeddiad a lles disgyblion penodol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos gofalgar a chynhwysol sy'n bodoli yn yr ysgol. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am fwyta'n iach ac yn sicrhau cyfleoedd buddiol iddynt ymgymryd â sesiynau ymarfer corff. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau allgyrsiol er mwyn hybu ffitrwydd disgyblion yn effeithiol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gadarn a chyfeiriad strategol i waith yr ysgol. Maent yn hynod effeithiol wrth osod a hybu gweledigaeth yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar barch, gwella lles a meithrin perthnasoedd gwaith o fewn un teulu mawr ac anelu at ragoriaeth trwy wella safonau disgyblion. Mae'r tîm arwain strategol yn arwain trwy esiampl ac yn modelu ymddygiadau a disgwyliadau yn effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bawb ac ohonynt eu hunain. Maent yn arwain gwahanol adrannau o fewn yr ysgol yn gadarn sy'n meithrin gwaith tîm effeithiol. Caiff arweinwyr gefnogaeth gref gan staff, sydd oll yn credu yng ngweledigaeth yr ysgol ac yn gweithio'n frwdfrydig tuag at ei chyflawni.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang. Mae gan arweinwyr wybodaeth drylwyr am safonau dysgu ac addysgu ac maent yn gwerthuso perfformiad yr ysgol yn fanwl. Maent yn dadansoddi data yn drylwyr ac yn arsylwi gwersi ac adolygu gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae gan bob aelod o staff rôl fuddiol yn y gweithgareddau hyn. Er enghraifft, mae athrawon yn gweithio'n effeithiol o fewn triawdau dysgu sy'n rhoi cyfle iddynt arsylwi gwersi ac edrych ar waith disgyblion gyda'i gilydd er mwyn gwerthuso'u cynnydd. Mae hyn yn sicrhau atebolrwydd ymhlith staff am ansawdd darpariaeth yr ysgol. Mae'r arweinwyr yn gwrando'n ofalus ar farn rhieni a disgyblion. Enghraifft o hyn yw'r ffordd mae'r ysgol wedi gwella ansawdd y cyfathrebu, ar gais rhieni.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth o weithgareddau hunanarfarnu yn effeithiol i nodi nifer hylaw o flaenoriaethau priodol fydd yn cael yr effaith fwyaf ar safonau'r disgyblion. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos â llywodraethwyr a staff i wireddu'r cynlluniau hyn a monitro cynnydd yn ôl y blaenoriaethau gwella. Mae hyn yn sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol ac yn arwain at ddeilliannau gwell i ddisgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r gwelliant diweddar ym medrau ysgrifennu Cymraeg disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol staff. Mae'r rhain yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion athrawon unigol. Mae hyfforddiant penodol, a'r cydweithio agos ag ysgolion cyfagos, er enghraifft wrth ddatblygu 'Dulliau Adferol', wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol disgyblion. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd.

Mae'r corff llywodraethol yn effeithiol ac yn cyflawni ei swyddogaethau'n dda. Mae arweinwyr yn hysbysu llywodraethwyr yn dda ynglŷn â pherfformiad yr ysgol trwy ddiweddariadau manwl, cyflwyniadau rheolaidd gan staff a disgyblion, a chymryd rhan mewn teithiau dysgu. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i ddwyn yr ysgol i gyfrif am safonaun yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn oedd iddynt herio safonau gwyddoniaeth. O ganlyniad, mae'r athrawon wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth drwy sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau ymchwilio. Mae hyn wedi arwain at wella lefelau disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb ac yn monitro effaith gwariant yn drwyadl. Maent yn rhagweld heriau cyllidol ac yn cynllunio'n fedrus er mwyn osgoi risgiau posibl yn y dyfodol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r grant datblygu disgyblion, er enghraifft wrth wella lefelau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/04/2018